# ADRODDIAD BLYNYDDOL - 2014/15

**Cynghorydd: Lesley Day** **Grŵp: Annibynnol**

**Ward: Bangor - Garth**

**Bwriad yr adroddiad blynyddol:**
Nod yr Adroddiad Blynyddol yw cynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.

**Rôl a chyfrifoldebau:**
Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Pencampwr Hyfforddiant Aelodau, Aelod o'r Cyngor, y Pwyllgor Craffu Corfforaethol, y Pwyllgor Safonau, y Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol, Grŵp Prosiect Bangor a Fforwm Ardal Ogwen

**Gweithgareddau etholaethol:**

Rwyf yn derbyn nifer fawr o alwadau ffôn, e-byst a llythyrau gan breswylwyr yn gofyn am help a chyngor, o Faterion Cynllunio i Gasgliadau Sbwriel. Rwyf hefyd yn cynnal cymhorthfeydd yn fisol trwy apwyntiad.

Yn Garth rydym wedi profi rhau problemau cynllunio, ac rwyf wedi ymgynghori â phreswylwyr ac wedi trefnu cyfarfodydd cyhoeddus i sicrhau ein bod ni, fel cymuned, yn ymateb i'r ceisiadau cynllunio hyn.

Cefais gyfarfodydd safle gyda Swyddogion Cyngor Gwynedd, yn benodol i edrych ar barcio, arwyddion a marciau priffyrdd, cyflwr ffyrdd yn cynnwys ceudyllau, chwyn, glanweithdra a tramwy. Mae'r rhan fwayf o Ffordd Meirion wedi cael ei hail-wynebu, ond rydym yn aros i Wales and West Utilities osod pibellau newydd fel bod Cyngor Gwynedd yn gallu ail-wynebu'r rhan ar ben Lôn Cariadon i Ffordd Y Coleg.

Cynhaliais gyfarfodydd safle gyda'r Heddlu, swyddogion Cyngor Gwynedd a phreswylwyr lleol ynglŷn â materion megis partïon, sŵn, ysbwriel, tanau a gwersylla – mae'r materion hyn bellach yn cael eu monitro'n ofalus..

Byddaf yn cyfrannu at gyfarfodydd i ddatrys materion ailgylchu, casgliadau bwyd, ysbwriel, tipio slei bach, ac unrhyw broblemau sydd gan breswylwyr lleol yn rheolaidd.

Rwyf wedi bod yn gwneud cyswllt rhwng yr heddlu a phreswylwyr ynglŷn â materion penodol fel byrgleriaethau, difrod maleisus a phobl ddigartref yn campio mewn lleoliadau anaddas a pheryglus.

**Mentrau a gweithgareddau eraill:**

Rwyf yn Gadeirydd Canolfan Gymunedol Garth, ble rydym yn ceisio darparu dosbarthiadau a gwasanaethau rydym ni'n credu sydd o ddiddordeb i'r bobl leol. Mae'r Ganolfan hefyd yn gweithredu fel canolbwynt i'r gymuned.

Rwy'n Gynghorydd Dinas Bangor yn cynrychioli ward Garth. Eleni rydym wedi cynnal menter fawr i gyflwyno cais i Gronfa Treftadaeth y Loteri i adfer Pier y Garth ac ychwanegu pontŵn. Cynhaliais weithdy am Bier y Garth, roedd yna bresenoldeb da o breswylwyr lleol a rhoesant eu cefnogaeth i'r cais trwy ysgrifennu llythyrau cefnogol.

Rwy'n aelod o Grŵp Cyswllt Prifysgol Bangor, mae'r aelodaeth yn cynnwys y Brifysgol, yr Undeb Myfyrwyr, yr Heddlu, a Chynghorwyr Bangor a Gwynedd, byddwn yn trafod a datrys materion megis llety myfyrwyr, defnydd adeiladau'r Brifysgol a Pontio.

Rwy'n Drysorydd Cymdeithas Gefeillio Bangor a Soest. Dros y 40 mlynedd diwethaf rydym wedi cael nifer o gyfnewidiadau - mae ysgolion, corau, cynghorwyr, timau chwaraeon a grwpiau eraill wedi mwynhau eu cyfnewidiadau ac wedi gwneud ffrindiau da. Roeddem yn hapus iawn i gynnal cyfnewid gydag ysgol o Soest ym mis Medi 2014 ac mae rhaid diolch i'r preswylwyr am roi llety i'r bobl ifanc. Gobeithiwn gael ymweliad arall i Soest ym mis Medi, 2015.

**Bu i mi fynychu'r Pwyllgorau canlynol:**

| PWYLLGOR | PRESENNOL |
|---|---|
| Y Cyngor | 3 |
| Pwyllgor Craffu Corfforaethol | 2 |

| | |
|---|---|
| Paratoi i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol | 3 |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | 4 |
| Pwyllgor Cynllunio (fel aelod lleol) | 1 |
| Pwyllgor Safonau (wedi fy mhenodi yn Pwyllgor Mis Rhagfyr) | 2 |
| Fforwm Ardal Ogwen | 15 |

Canran Presenoldeb: 59%

**Roeddwn yn absennol o'r Pwyllgorau a nodir isod oherwydd:**

Y Cyngor Llawn ym mis Hydref a mis Rhagfyr 2014 oherwydd roeddwn i yn mynychu'r Academi Arweinyddiaeth yn Wrecsam ar 8, 9 Hydref, 5, 6 Tachwedd a 3, 4 Rhagfyr, 2014.
Y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar 13 Tachwedd oherwydd profedigaeth yn y teulu.
Y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar 15 Ionawr oherwydd salwch.
Y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar 26 Mawrth oherwydd adolygiadau proffesiynol yng Nghaerdydd.

**Bu i mi gymryd rhan yn y cyfarfodydd, seminarau, ymchwiliadau a gweithdai ychwanegol canlynol:**

Fforymau Craffu
Cabinet Anffurfiol a Fforwm Craffu
Gweithdai Craffu Effeithlonrwydd
Ymchwiliad Craffu
Gweithdai Cynllun Strategol
Gweithdai Arbedion
Adolygiad Trwyddedu
Adolygiad Mynediad i Stryd Fawr Bangor
Gweithgor Ymgysylltu â'r Gymuned
Fforwm Tenantiaid Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor
Grŵp Amrywiaeth
Cyfarfod Rheoleiddio Arbennig
Pwyllgor Penodi Safonau
Academi Arweinyddiaeth

**Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd ar y cyrff allanol canlynol:**

Ysgol Hirael (Llywodraethwr)
Pwyllgor Rheoli Gwarchodfa Natur Lleol Traeth Lafan

**Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd yn y cyfarfodydd canlynol:**

Rhwydwaith Swyddog Cefnogi Aelodau / Arweinydd Cefnogi Aelodau
Cyfarfodydd Cyfnewid Ymarferion Gogledd Cymru
Panel Taliadau
Brîffio ar Fesur Llywodraeth Leol 2011
Brîffio Llywodraeth Cymru ar y Papur Gwyn - Diwygio Llywodraeth Leol: Pŵer i Bobl Leol

**Bu i mi fynychu'r sesiynau hyfforddiant Dysgu a Datblygu canlynol:**

| **Corfforaethol** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Strategaeth Wastraff | 7/05/2014 |
| Arwain Cymunedau trwy Newid | 2/07/2014 |
| Trefniadau Pwyllgorau | 29/07/2014 |
| Gwe-ddarlledu | 26/11/2014 |
| Arwain yn Ddiogel | 5/12/2014 |
| Hyfforddiant Pellach ar We-ddarlledu i Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion | 12/01/2015 |
| Rhiantu Corfforaethol | 25/02/2015 |

| **Ychwanegol** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Hyfforddiant Cynllunio | 21/05/2014 |
| Darllen yn Gyflym (Sesiwn Saesneg) | 02/07/2014 |
| Gweithdy Amddiffyn Plant | 4/7/2014 |
| Sgiliau Cyfathrebu (Dylanwadu a Negodi) | 14/11/2014 |
| Cyflwyniadau Effeithiol (Sesiwn Saesneg) | 9 + 23/01/2015 |
| Academi Arweinyddiaeth | Hydref 2014 (6 diwrnod o hyfforddiant) |

**Cyfanswm nifer o oriau: 85.5 awr**